# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
# HYSBYSIAD GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014
(Pennod 2)

## Yr ardal a elwir "Tref Bae Colwyn" ym Mwrdeistref Sirol Conwy

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 59, 63 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") ac o dan yr holl bwerau galluogi eraill, yn bwriadu gwneud y gorchymyn canlynol:

1. Mae'r Gorchymyn yn ymwneud â'r ardal a ddisgrifir yn yr atodlen isod ("yr Ardaloedd Cyfyngedig") ac fel y dangosir ar y cynllun atodedig.

2. Gellir cyfeirio at y Gorchymyn fel Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Tref Bae Colwyn – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2026, a bydd yn dod i rym ar 1 Mawrth 2026 am gyfnod o 3 blynedd, oni bai yr ymestynnir ef gan Orchmynion pellach dan bwerau statudol y Cyngor.

3. Effaith y Gorchymyn yw gosod yr amodau canlynol ym mhob man cyhoeddus yn yr Ardal Gyfyngedig:

   **a. Ni chaiff unrhyw un yfed alcohol yn yr ardal gyfyngedig.**

   **b. Ni chaiff unrhyw un yn yr ardal gyfyngedig yfed alcohol na gwrthod rhoi'r gorau i yfed alcohol, na gwrthod ildio unrhyw gynwysyddion (boed wedi eu selio neu heb eu selio) y credir eu bod yn cynnwys alcohol, pan fo Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gofyn i'r unigolyn wneud hynny.**

   **c. Gwaherddir unrhyw unigolyn sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag bod yn yr ardal gyfyngedig ar ôl i Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ofyn i'r unigolyn adael yr ardal gyfyngedig, ac ni ddylai ddychwelyd am gyfnod a nodir gan y Swyddog hwnnw, a fydd hyd at 48 awr.**

**Rhestr o'r ardaloedd cyfyngedig**

Yr ardal ar y map sydd ynghlwm, sef:

Pob man cyhoeddus yn nhref Bae Colwyn fel y dangosir ag ymyl coch ar y cynllun atodedig, sy'n cynnwys y strydoedd y cyfeirir atynt yn Atodiad 1, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheiny.

Mae drafft y gorchymyn arfaethedig ynghlwm. Gellir archwilio manylion pellach a'r rhesymau dros wneud y gorchymyn yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Coed Pella, Bae Colwyn LL29 7AZ, drwy drefniant ymlaen llaw drwy gysylltu â'r manylion isod. Mae'r gorchymyn arfaethedig hefyd wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor: www.conwy.gov.uk.

Os hoffech wneud sylwadau am y gorchymyn arfaethedig, dylech wneud hynny'n ysgrifenedig erbyn 7 Ionawr 2026, gan nodi'r rhesymau dros eich gwrthwynebiad, drwy e-bost i ConwyDiogelach@conwy.gov.uk, neu drwy'r post at Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, Bae Colwyn LL29 0GG.

Dyddiedig 3 Tachwedd 2025

………………………………………………
Peter Brown (Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio)

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
# GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014
(Pennod 2)

## Yr ardal a elwir "Tref Bae Colwyn" ym Mwrdeistref Sirol Conwy

Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Tref Bae Colwyn – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2026.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cyngor"), yn hapus bod yr amodau a nodir yn Adran 59(2) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") wedi eu bodloni mewn perthynas â'r ardaloedd o fannau cyhoeddus yn yr ardal gyfyngedig a ddangosir ar y map atodedig, dan yr enw Canol Tref Bae Colwyn, a bod gweithgareddau a gynhaliwyd mewn man cyhoeddus o fewn ardal yr awdurdod wedi achosi trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal leol. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cael effaith niweidiol, neu maent yn debygol o gael effaith niweidiol, ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal leol, a'r bobl hynny sy'n ymweld â'r ardal fel lleoliad twristiaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn fodlon bod effaith, neu effaith debygol, y gweithgareddau yn ddi-baid neu'n barhaus, neu'n debygol o fod felly. Yn ogystal, mae'r gweithgareddau hyn yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn, ac mae, dan yr holl amgylchiadau, yn fuddiol gwneud y Gorchymyn er mwyn lleihau trosedd a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus.

Mae'r Cyngor, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 59 y Ddeddf ac o dan bob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y gorchymyn a ganlyn:

a. **Ni chaiff unrhyw un yfed alcohol yn yr ardal gyfyngedig.**

c. **Ni chaiff unrhyw un yn yr ardal gyfyngedig yfed alcohol na gwrthod rhoi'r gorau i yfed alcohol, na gwrthod ildio unrhyw gynwysyddion (boed wedi eu selio neu heb eu selio) y credir eu bod yn cynnwys alcohol, pan fo Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gofyn i'r unigolyn wneud hynny.**

c. **Gwaherddir unrhyw unigolyn sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag bod yn yr ardal gyfyngedig ar ôl i Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ofyn i'r unigolyn adael yr ardal gyfyngedig, ac ni ddylai ddychwelyd am gyfnod a nodir gan y Swyddog hwnnw, a fydd hyd at 48 awr.**

**Bydd unrhyw un sy'n peidio â chydymffurfio, heb esgus rhesymol, â gofyniad Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel y nodir uchod, yn torri'r Gorchymyn hwn ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i Rybudd Cosb Benodedig hyd at £100.**

Daw'r Gorchymyn yn weithredol ar 1st March 2026 a daw i rym am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny, oni bai y caiff ei ymestyn gan Orchmynion pellach o dan bwerau statudol y Cyngor.

Os bydd unrhyw un â diddordeb yn gwneud cais i gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn neu gynnwys unrhyw waharddiadau neu ofynion penodol a osodir gan y Gorchymyn, neu na chydymffurfiwyd â gofyniad yn y Ddeddf, gall ef neu hi wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn.

Dyddiedig

…………………………………………………
Peter Brown (Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio)